# Paratoi a chynllunio ar gyfer tanau gwyllt

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi a chynllunio ar gyfer tanau gwyllt. Mae'n ymdrin â'ch gallu i nodi a chasglu gwybodaeth a'i defnyddio i gyfrannu at gynlluniau gweithredol a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol ar gyfer delio â thanau gwyllt. Mae'n cynnwys asesu risg tanau gwyllt yn yr ardal rydych chi'n gyfrifol amdani, gan nodi adnoddau a datblygu cynlluniau tanau gwyllt. Fel rhan o'r safon hon, bydd disgwyl i chi weithio gyda thirfeddianwyr ac asiantaethau eraill.

Argymhellir y safon hon ar gyfer arbenigwyr tanau gwyllt a phobl sydd â rôl strategol, dactegol neu weithredol wrth ddelio â thanau gwyllt.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 cytuno ar eich rôl a'ch cyfrifoldebau am ymateb i danau gwyllt gyda phobl eraill berthnasol yn eich sefydliad

P2 nodi a dehongli ffynonellau gwybodaeth am danau gwyllt o fewn eich rôl mewn ymateb i danau gwyllt

P3 casglu gwybodaeth sy'n gyfredol, yn berthnasol ac sy'n bodloni gofynion gwybodaeth eich sefydliad am danau gwyllt

P4 casglu gwybodaeth am amgylcheddau tanau gwyllt yn yr ardal ddaearyddol rydych chi'n gyfrifol amdani

P5 asesu risgiau tanau gwyllt i bobl, eiddo a'r amgylchedd yn unol â gweithdrefnau asesu risg eich sefydliad

P6 nodi mesurau rheoli er mwyn lleihau risg i bobl, eiddo a'r amgylchedd yn unol â gweithdrefnau asesu risg eich sefydliad

P7 monitro gwybodaeth er mwyn nodi sbardunau cynnydd mewn risg tanau gwyllt yn unol â gweithdrefnau asesu risg eich sefydliad

P8 cyfrannu at gynlluniau rheoli risg yn unol â gofynion eich sefydliad

P9 datblygu cynlluniau tanau gwyllt gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn unol â gofynion eich sefydliad ar gyfer parodrwydd gweithredol

P10 adolygu cynlluniau tanau gwyllt i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau yn unol â gofynion eich sefydliad

P11 sefydlu'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael i ymateb i danau gwyllt yn unol â gweithdrefnau adnoddau eich sefydliad

P12 neilltuo adnoddau i gynlluniau tanau gwyllt i fodloni gofynion eich sefydliad am ymateb i danau gwyllt a'i strategaeth ymateb i danau gwyllt

P13 rhannu gwybodaeth am gynlluniau tanau gwyllt gyda phobl berthnasol eraill yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Lechyd a diogelwch**

K1 arferion gweithio diogel eich sefydliad wrth ymateb i danau gwyllt

K2 peryglon a risgiau tanau gwyllt sy'n effeithio ar bobl, eiddo a'r amgylchedd

K3 sut i ddefnyddio gwybodaeth asesiad risg i wneud penderfyniadau

K4 sut i gymhwyso penderfyniadau ar sail yr asesiad o risg

K5 mesurau rheoli eich sefydliad i liniaru risgiau

**Sefydliadol**

K6 deddfwriaeth, polisïau, gweithdrefnau, canllawiau a phrotocolau sy'n berthnasol i'ch rôl yn paratoi ar gyfer tanau gwyllt

K7 systemau, offer, dulliau a thempledi sy'n addas i baratoi gwybodaeth ar gyfer tanau gwyllt

K8 gofynion eich sefydliad ar gyfer cynnal cynlluniau tanau gwyllt

**Personol a rhyngbersonol**

K9 eich rôl a'ch cyfrifoldebau wrth baratoi ar gyfer tanau gwyllt, gan gynnwys maes eich cyfrifoldeb

K10 pobl eraill berthnasol y gallech weithio gyda nhw wrth baratoi ar gyfer tanau gwyllt a'u rôl yn achos tanau gwyllt

K11 llinellau a dulliau cyfathrebu ac adrodd yn y gweithle

K12 sut i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol gydag eraill

K13 sut i drin pobl eraill gyda pharch ac ystyriaeth, gan gyfrif am amrywiaeth a'i dderbyn

**Technegol**

K14 sut i gael at wahanol ffynonellau gwybodaeth sy'n berthnasol i danau gwyllt, a'u defnyddio

K15 mathau o amgylcheddau tanau gwyllt yn eich ardal a'u heffaith

K16 y System Rhagweld Tanau Gwyllt a sut i'w defnyddio yn y broses gynllunio

K17 dulliau a thechnegau lleihau risg tanau gwyllt

K18 gwahanol adnoddau sydd ar gael i ymateb i danau gwyllt

K19 sut gall adnoddau gael eu defnyddio i reoli tanau gwyllt

## Cwmpas/Ystod

**1 Ffynonellau gwybodaeth a mathau o wybodaeth**

1.1 mapiau

1.2 rhagolygon meteorolegol a data hanesyddol

1.3 gwybodaeth am ddigwyddiadau hanesyddol

1.4 cofrestri gallu lleol a chenedlaethol

1.5 cynlluniau a strategaethau digwyddiadau tân lleol, strategol a mawr

1.6 mathau o danwydd a llwyth tanwydd

1.7 strategaethau tân cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

1.8 polisïau, canllawiau, gweithdrefnau gweithredu safonol ac asesiadau risg yn berthnasol i danau gwyllt

1.9 meddalwedd ac offer perthnasol

1.10 systemau gwybodaeth a graddio perygl tân

1.11 deallusrwydd dynol

**2 Amgylchedd tanau gwyllt**

2.1 topograffeg

2.2 tanwydd

2.3 tywydd

2.4 ymddygiad tân

**3 Risgiau**

3.1 risgiau iechyd a diogelwch i bobl

3.2 risg eiddo, economaidd a masnachol

3.3 risg amgylcheddol

3.4 cynlluniau rheoli risg, fel Cynlluniau Rheoli Risg Integredig a Chofrestri Risg Cymunedol

**4 Eraill**

4.1 cydweithwyr

4.2 rheolwyr tir

4.3 Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

4.4 Y Weinyddiaeth Amddiffyn

4.5 gwasanaethau brys

4.6 cwmnïau cyfleustodau

4.7 y cyfryngau

4.8 aelodau’r cyhoedd
4.9 gwasanaethau trafnidiaeth
4.10 Timau Chwilio ac Achub
4.11 Awdurdodau Lleol a Chenedlaethol
4.12 asiantaethau gwirfoddol
4.13 asiantaethau eraill

**5. Adnoddau**
5.1 adnoddau mewnol
5.2 adnoddau allanol
5.3 personél a’u galluoedd
5.4 cymorth milwrol
5.5 cyfarpar
5.6 darpariaeth dŵr
5.7 grwpiau tanau gwyllt lleol

## Cysylltiadau â SGC eraill

Disgwylir y bydd yr NOS hwn yn cael ei ddefnyddio a'i gymhwyso ar y cyd ag NOS eraill sy'n berthnasol i'ch rôl ym maes tân ac achub.

## Cysylltiadau Allanol

Mae 'Canllawiau Gweithredol – Tanau Gwyllt' ar gael, ac fe'u datblygwyd er mwyn rhoi dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ychwanegol o danau gwyllt i staff Gwasanaethau Tân ac Achub (FRS) y Deyrnas Unedig.

Cyhoeddir 'Canllawiau Gweithredol – Tanau Gwyllt' (Saesneg) gan Lywodraeth yr Alban:
http://www.scotland.gov.uk/Topics/Justice/public-safety/fire-and-rescue-services/fire-rescue-advisory-unit/publications/wildfireopsguidancedraft

Paratoi a chynllunio ar gyfer tanau gwyllt

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Rhag 2013 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Rhag 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJFRSWF01 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gwasanaeth Tân ac Achub - Rheolwr Gorsaf, Rheolwyr Gwylfa Tân ac Achub |
| **Cyfres/Set** | Tân ac Achub - ymdrin ag achosion o Danau Gwyllt, Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | Tân; achub; arbenigol; gwybodaeth; strategaeth; asesu; cynlluniau; risg; |